| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **Mawrth 2013** |
| **TEITL** | **Gorchymyn Cyfyngiadau Parcio Bangor 2013** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Argymell bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno Cyfyngiadau Aros ar Ffordd Gwynedd, Bangor, sy'n ffurfio rhan o Orchymyn Cyfyngiadau Parcio Bangor 2013** |
| **AWDUR** | **Aled Davies**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo'r argymhellion** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd William Gareth Roberts** |

**CYFLWYNIAD**

1.1 Yn dilyn ceisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, cynhaliwyd adolygiad o gyfyngiadau parcio yn Ninas Bangor, er mwyn ceisio gwella diogelwch ffyrdd a llif y traffig.

1.2 Bu'r cynnig drwy ymgynghoriad statudol yn ystod mis Rhagfyr 2012, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y cyrff statudol.

1.3 Yn ystod y cyfnod 17 Ionawr 2013 hyd at 14 Chwefror 2013, bu'r cynnig am y cyfyngiadau parcio drwy broses ymgynghoriad cyhoeddus.

1.4 Derbyniwyd gwrthwynebiad mewn perthynas â diddymu'r ddau safle tacsi sydd wedi'u lleoli ger siop fwyd cyflym Subway yn Nhan y Fynwent.

1.5 Trafodwyd y mater gyda'r gwrthwynebydd er mwyn ceisio datrys y mater, ac eglurodd ar y pryd nad oedd ganddo wrthwynebiad mewn egwyddor i'r llinellau melyn, ond yn hytrach ei fod yn gwrthwynebu'r diffyg ymgynghoriad ar gynllun Mannau Cyhoeddus Bangor a oedd fel rhan o'r prosiect yn cynnwys estyniad i'r droedffordd er mwyn darparu man croesi diogel i gerddwyr.

1.6 Eglurwyd i'r gwrthwynebydd bod Grŵp Llywio wedi'i sefydlu ym mis Ionawr 2010, a bod holl Gynllun Mannau Cyhoeddus Bangor wedi bod drwy gyfres o ymgynghoriadau gyda budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

1.7 O ran yr ardal y mae gwrthwynebiad iddi, rhoddwyd ystyriaeth i sawl opsiwn ac fe'u harddangoswyd mewn arddangosfa gyhoeddus yng Nghanolfan Deiniol ym mis Ionawr 2011. Fodd bynnag, pan grëwyd cynlluniau manwl daeth yn amlwg er bod rhai opsiynau'n cynnig atebion i'r problemau presennol, eu bod hefyd yn creu problemau eraill e.e. symud lleoliad y safleoedd bws a'r gyffordd gyda Ffordd Deiniol.

1.8 Mae Grŵp Llywio Mannau Cyhoeddus Bangor yn cynnwys aelodau etholedig, noddwyr a chynrychiolwyr o Brifysgol Cymru, Bangor, ac fe wnaeth y grŵp gyfarfod ym mis Chwefror 2011 i ystyried y cynnig terfynol, ac yn dilyn ymgynghori gyda chwmnïau bws lleol, penderfynwyd ar y cynllun.

1.9 Mae'r cynllun fel mae wedi'i adeiladu yn darparu man croesi mwy diogel i gerddwyr. Cynt roedd bysus naill ai'n parcio ar y man croesi, neu'n union wrth ei ymyl, fel nad oedd cerddwyr yn gallu gweld heibio, oedd yn ei gwneud yn beryglus iawn i groesi. Mae'r estyniad i'r palmant yn atal bysus rhag bod yn rhwystr ar y man croesi, ond o'r herwydd roedd rhaid symud y ddau safle tacsi gyferbyn, er mwyn i'r bysus allu tynnu allan yn ddiogel ac i'r traffig symud yn fwy rhwydd.

1.10 Dylid nodi nad yw'r safle tacsi mwy sydd tua 40 metr i lawr y ffordd wedi'i effeithio o gwbwl. Hefyd, mae safleoedd tacsi newydd wedi'u darparu ar Ffordd Deiniol i helpu tacsis sy'n delio â chwsmeriaid clwb nos Embassy.

1.11 Mae'r Cyngor wedi ceisio ymgynghori â'r cwmnïau tacsi o'r blaen, a gwahoddwyd cynrychiolwr i fynychu gweithdy cynnar yn 2009.

1.12 Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r cwmnïau tacsi i fynychu cyfarfod ym mis Chwefror 2012 i drafod y gwaith arfaethedig yn yr orsaf bysiau ac ardal Tan y Fynwent. Ni dderbyniwyd ymateb.

1.13 Ar 28 Mawrth 2012 dosbarthwyd llythyr drwy law i'r gyrwyr tacsi sy'n defnyddio'r safle, a rhoddwyd rhybudd ar y rheiliau sydd gerllaw'r safleoedd. Roedd hyn yn egluro bwriad y cynllun, oedd yn cynnwys tynnu dau safle oddi yno er mwyn galluogi'r traffig i lifo'n haws.

1.14 Fis Mehefin 2012, dosbarthwyd ac arddangoswyd rhybudd ychwanegol oedd yn rhoi gwybod i'r cwmnïau tacsi am y gwaith arfaethedig a'r dyddiad cychwyn. Ni chafwyd ymateb i'r un o'r rhybuddion.

1.15 Derbyniwyd cwynion gan y gyrwyr tacsi ar ôl cychwyn y gwaith, ond roedd y rhain yn ymwneud mwy â'r anghyfleustra yn hytrach na'r bwriad ei hun.

1.16 Er gwaethaf galwad ffôn gydag Uwch Reolwr y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd ddydd Gwener, 22 Chwefror, yn ceisio egluro'r sefyllfa a'r effaith andwyol ar ddiogelwch y ffordd a llif y traffig, roedd y gwrthwynebydd yn daer na fyddai'n newid ei feddwl, er ei fod yn cydnabod ei fod yn gweld yr angen am linellau melyn yn dilyn adeiladu allan o'r palmant.

**2.0 ARGYMHELLIAD**

2.1 Barn yr Awdurdod yw fod y cyfyngiadau aros yn Nhan y Fynwent yn hanfodol er mwyn gwella llif y traffig a gwella diogelwch y ffordd.

2.2 Os na roddir y llinellau yn y lleoliad hwn ac y caniateir i gerbydau barcio yno, byddai'n rhwystro llif y traffig ar hyd y rhan hon o'r ffordd ac yn dod ag un o brif ganolfannau trafnidiaeth Gwynedd i stop.